Ymchwilio i 'fyfyrwyreiddio'

Wrth i nifer cynyddol o fyfyrwyr fynychu addysg uwch dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r crynodiad o fyfyrwyr mewn trefi a dinasoedd ledled y DU wedi cynyddu (gweler Tabl 1). Mae hyn wedi arwain at newidiadau i gymunedau lleol. Mewn rhai ardaloedd lle mae crynodiad cymharol uchel o fyfyrwyr wedi setlo, mae trigolion wedi dioddef effeithiau negyddol. Mae eraill, yn arbennig mewn ardaloedd sy'n dirywio, wedi croesawu'r nifer cynyddol o fyfyrwyr.

Mae ffenomen 'myfyrwyreiddio' yn un gymharol ddiweddar ac mae yma botensial am waith maes arloesol a diddorol. Mae Ffigur 1 yn dangos rhai o'r newidiadau (da a drwg) sy'n medru bod yn gysylltiedig â myfyrwyreiddio ardal. Gellir edrych arnynt fel posibiliadau ar gyfer casglu data cynradd ac eilaidd.

© Prifysgol Aberystwyth

Ffigur 1
Rhai newidiadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol/ ffisegol posib mewn ardal yn sgil niferoedd cynyddol o fyfyrwyr

Mae myfyrwyr yn darparu gweithlu rhan amser hyblyg, sy'n edrych am waith tymhorol neu gyda'r hwyr (effeithiau cyflogaeth ysbeidiol).

Gall canolbwyntio deallusrwydd a 'grym ymennydd' (yn arbennig crynodiad o ôl-raddedigion) arwain at sefydlu parciau gwyddoniaeth a dyfeisgarwch, e.e. yng Nghaergrawnt.

Chwyddiant prisiau eiddo a newid yng nghydbwysedd y stoc tai. Cynnydd mewn llety preifat ar rent a thai amlddeiliadaeth, a lefelau is o berchenogion preswyl.

Newidiadau mewn adwerthu o siopau bach annibynnol a lleol i werthwyr bwyd cyflym a bwytai / clybiau / lleoliadau cerddoriaeth.

Mae atgyweirio, adnewyddu ac estyn eiddo myfyrwyr yn fuddiol i sector adeiladu a gwasanaethau'r economi.

Fel rheol, mae gan gartrefi myfyrwyr nifer o nwyddau trydanol – cyfrifiaduron, setiau teledu, chwaraewyr MP3 a.y.y.b. Mae hyn yn eu gwneud yn darged deniadol i ladron.

Mae anghenion tai myfyrwyr yn atal diboblogi difrifol a mudo allan o nifer o ardaloedd dinas fewnol.

Mae rhai lleoliadau yn fwy 'diwylliedig' yn sgil crynodiad cynyddol o fyfyrwyr.

© Richard Huw Pritchard

Adleoli / dadleoli preswylwyr sefydlog gan grŵp cymdeithasol cyfnewidiol, ifanc a sengl gan fwyaf.

Mae'r ardal yn 'dref farw' yn ystod cyfnodau gwyliau pan fo myfyrwyr yn dychwelyd adref. Rhaid i siopau a gwasanaethau ddygymod â galw newidiol.

Anawsterau parcio ar y stryd yn cynyddu o ganlyniad i rannu tai a thagfeydd trafnidiaeth tymhorol (e.e. seremonïau graddio, ar ddiwedd tymor).

Cynnydd mewn dwysedd poblogaeth a phwysau cynyddol ar wasanaethau (heddlu, glanhau, priffyrdd, cynllunio, trafnidiaeth gyhoeddus).

Anharddu strydoedd: byrddau gosod, taflenni hysbysebu, posteri gigs.

Llygredd sŵn yn sgil cynnydd yn nifer a dwysedd gweithgareddau hwyr yn y nos, e.e. barrau a chlybiau, partïon myfyrwyr.

Gall llety myfyrwyr fforddiadwy a diffyg buddsoddiad gan landlordiaid arwain at esgeulustod o ran gofalu am yr eiddo a'r gerddi.

Gall dwysedd poblogaeth cynyddol (tai amlddeiliadaeth) osod straen ar siopau a gwasanaethau lleol, e.e. sinema.

Gall màs critigol o fyfyrwyr sicrhau cysylltiadau trafnidiaeth er budd yr holl gymuned; efallai mai tagfeydd trafnidiaeth gyhoeddus ar oriau brig yw ochr negyddol hyn.

Effeithiau Economaidd Effeithiau Cymdeithasol Effeithiau Amgylcheddol/Ffisegol

Tabl 1 *Newidiadau ym mhoblogaeth myfyrwyr mewn lleoliadau penodol yn Lloegr*

Lleoliad	Cyfanswm poblogaeth (cyfrifiad 2001)	% poblogaeth 18-29 oed (cyfrifiad 2001)	Cyfanswm poblogaeth myfyrwyr 2001/2	Cyfanswm poblogaeth myfyrwyr 2003/4
Brighton	247,817	19.7	30,010	31,630
Caergaint	135,278	17.9	29,180	32,310
Leeds	715,402	18.3	81,455	88.890
Loughborough	55,492	28.0	13,855	16,860
Manceinion a Salford	608,922	23.7	87,250	92,015
Nottingham	266,988	23.5	52,815	60,290

Tabl 2 *Technegau Gwaith Maes*

Techneg	Disgrifiad a manylion	Opsiynau cyflwyno data
Arolwg gweithredol	Amrywiadau yn y mathau o adeiladau, e.e. edrych ar adloniant/hamdden, gan gynnwys lleoliadau cerddoriaeth. Arolwg i ddangos amserau agor sioeau (mapiau yn cymharu'r dydd â'r hwyr). Gellir defnyddio map hanesyddol Goad i ddadansoddi newid dros y 10–15 mlynedd diwethaf. Edrychwch am ardaloedd dwys lle mae crynodiad sylweddol o wasanaethau myfyrwyr. A fu cynnydd neu ostyngiad yn nifer yr adeiladau gwag?	Mapiau graddfa fawr â chod lliw. Dylai'r allwedd gynrychioli'r broses myfyrwyreiddio. Gellir eu hanodi er mwyn dangos newidiadau perthnasol.
Arolwg basged siopa	Cymharu eitemau bwyd cyffredin mewn siopau lleol oddi mewn ac oddi allan i ardaloedd myfyrwyr. A oes gwahaniaeth mewn prisiau a'r mathau o nwyddau sydd ar werth?	Siartiau bar syml yn dangos prisiau cyfartalog ardaloedd cymharol.
Holiadur	Ymgais i werthuso effeithiau negyddol a chadarnhaol ar dri grŵp o ddefnyddwyr: (1) myfyrwyr (2) perchenogion siopau lleol (3) preswylwyr lleol Ystyriwch y ffordd orau o wneud yr arolwg: gollwng a chasglu, neu ar y stryd. Ar gyfer holiaduron myfyrwyr, gofynnwch am ganiatâd i roi taflenni ar y campws. Gweler Ffigur 2.	Gellir casglu ymatebion a'u gosod ar fap sylfaen, gyda chod lliw yn cynrychioli'r mathau o bobl. Ar gyfer cwestiynau o fath cyfweliad, defnyddiwch gartwnau o bennau pobl a dyfyniadau er mwyn cynrychioli barn gwahanol bobl.
Tystiolaeth ffotograffig	Defnyddiwch ffotograffau er mwyn darlunio tystiolaeth o fyfyrwyreiddio. Dylid tynnu lluniau ar wahanol adegau o'r dydd er mwyn dangos gwahaniaethau mewn patrymau defnydd. Mae lluniau 'cyn ac ar ôl' yn effeithiol lle bo'n bosibl.	Anodiadau o safon uchel yw'r allwedd i lwyddiant yma. Ystyriwch roi cod lliw i ddangos effeithiau cadarnhaol neu negyddol.
Arolygon trosedd a sbwriel	Gweler *Geography Review* Cyfrol 17, Rhif 5 am fanylion llawn am arolygon trosedd. Gellir dosbarthu sbwriel yn ôl swm a math mewn ardaloedd gwahanol. Edrychwch am bapurau bwyd cyflym, poteli diodydd, a.y.y.b. Nodyn: efallai y bydd sbwriel yn rhannol berthnasol yn unig i'r cynnydd mewn crynodiad myfyrwyr.	Histogramau ar gyfer arolygon trosedd. Eiconau a leolwyd i gynrychioli swm a math y sbwriel mewn ardal.
Arolwg safon / cynnal a chadw adeiladau	Mae amrywiol daflenni cofnodi ar gael (gweler Ffigur 3)	Defnyddiwch siartiau cylch a bar a leolwyd er mwyn rhoi syniad cyffredinol o safon neu gyflwr ardal.
Arolwg preswyliaid a daliadaeth	Mae crynodiad uchel o dai ar rent a thai amlddeiliadaeth yn arwydd o fyfyrwyreiddio. Arolygwch nifer o strydoedd mewn ardal, gan edrych am arwyddion.	Mae Ffigur 4 yn dangos enghraifft o ddiagram daliadaeth.
Arolygon cerddwyr	Cymharu dwyseddau cerddwyr o amgylch siopau, yn ystod tymor a gwyliau myfyrwyr. Arolygon ar adegau gwahanol o'r dydd pan fo myfyrwyr yn debygol o fod yn 'weithgar' a 'segur'.	Mapiau isopleth i ddangos dwysedd cerddwyr mewn ardal. Gweler Ffigur 5.

(4) Faint o fyfyrwyr sy'n cael eu cyflogi gan eich cwmni ar hyn o bryd?

1-2 myfyriwr ☐
3-4 myfyriwr ☐
5+ myfyriwr ☐

Er mwyn darganfod a yw myfyrwyr yn cyfrannu tuag at y gweithlu lleol

(5) (a) A fu'n rhaid i chi gyflogi mwy o staff i ddygymod â'r boblogaeth myfyrwyr?

Do ☐ Naddo ☐

(b) Os felly, faint?

Cyflogi 1-2 staff newydd ☐
Cyflogi 3+ staff newydd ☐

Er mwyn darganfod ai effaith gadarnhaol myfyrwyreiddio (cwestiwn allweddol 2), yw darparu mwy o gyfleoedd swyddi i bobl leol.

(6) (a) A fu'n rhaid i chi gynyddu oriau agor y siop er mwyn dygymod â myfyrwyr?

Do ☐ Naddo ☐

(b) Os felly, faint o oriau?

1-3 awr yr wythnos ☐
3-5 awr yr wythnos ☐
5+ awr yr wythnos ☐

Er mwyn darganfod a yw myfyrwyreiddio wedi effeithio cymaint ar siop nes bod yn rhaid cynyddu oriau agor.

(7) (a) Ydych chi wedi cynyddu/newid yr ystod o nwyddau yr ydych yn eu gwerthu i ddiwallu'r myfyrwyr?

Do ☐ Naddo ☐

Er mwyn darganfod a yw nwyddau wedi'u cyfeirio yn fwy at fyfyrwyr

(b) Os felly, pa nwyddau a gynyddwyd / newidiwyd?

_____

_____

_____

Ffigur 2. *Rhan o holiadur anodedig yn edrych ar effaith myfyrwyreiddio ar berchenogion siopau lleol*
Ffynhonnell: Laura West, Peter Symonds College, Caer-wynt.

Technegau Gwaith Maes

Mae'r syniadau yn Ffigur 1 yn cynnig ystod gyfoethog o gyfleoedd gwaith maes. Ceir manylion am y rhain yn Nhabl 2. Mae angen teilwra dulliau casglu data i drywydd ymchwil neu set o gwestiynau allweddol. Mae hon yn broses bwysig sy'n medru dangos dyfeisgarwch a phersonoli'r broses ymholi.

Cael gafael ar ddata eilaidd

Mae'n bosib bod gan nifer o asiantaethau ac unigolion ddata a gwybodaeth berthnasol i'r broses myfyrwyreiddio. Nodir rhai ffynonellau isod.

- Defnyddiwch wefan VOA (**www.voa.gov.uk**) i gael gafael ar **ddata gwerth ardrethol** ar gyfer busnesau. Cymharwch ddata 2000 gyda ffigurau diwygiedig 2005. A yw'r trethi busnes wedi cynyddu neu ostwng yn ystod y cyfnod (gan gofio ystyried y gyfradd gynnydd waelodol)? Mae'r math hwn o wybodaeth yn ddefnyddiol ar gyfer edrych ar berfformiad economaidd ardal.

Trywydd ymchwil

Mae sawl trywydd ymchwil posibl, gan gynnwys:

- Sut a pham mae ardal X wedi myfyrwyreiddio mwy nag ardal Y?
- Cysyniadau lleol am fyfyrwyreiddio: da neu ddrwg?
- Newid mewn adwerthu: ymchwiliad i'r newidiadau i wasanaethau o ganlyniad i fyfyrwyreiddio.
- Daearyddiaeth anwastad myfyrwyreiddio dros ardal ddinesig benodol.
- Rheoli myfyrwyreiddio: gwerthusiad o opsiynau polisi lleol.
- Gwerthuso effeithiau economaidd a chorfforol / amgylcheddol myfyrwyreiddio.

Ffigur 3 *Sampl o daflen gofnodi ar gyfer dirywiad tai. Yn yr enghraifft hon, mae'r sgorau yn bwysol er mwyn adlewyrchu pwysigrwydd y meini prawf gwahanol*

Rhif 11 Paradise Street	Dim	Ychydig	Rhywfaint	Llawer
Dirywiad waliau	0	1	3	5
Paent yn pilio	0	1	2	3
Deunydd to wedi'i ddadleoli	0	1	5	9
Gwydr ffenestri wedi torri	0	1	3	7
Gwteri a.y.y.b. wedi torri	0	1	3	7
Niwed adeileddol, e.e. craciau setlo	0	3	6	11
Pren yn pydru	0	2	4	8
To yn crymu	0	2	6	10

Naill ai yn y maes os oes amser, neu wedi dychwelyd i'r ganolfan

Am bob stryd a archwiliwyd, adiwch y pwyntiau a ddyfarnwyd, yna tynnwch eich cyfanswm o 60 (uchafswm) 60 – 43 = 27

Gellir gwneud y pwyntiau cyffredinol canlynol o'ch canlyniad:

Sgôr	Cyflwr adeiladau
50-60	Da / ardderchog
40-49	Boddhaol
30-39	Anfoddhaol yn gyffredinol. Gall fod yn wael o ran pwyntiau penodol
20-29	Angen gweithredu yn y dyfodol agos er mwyn gwella adeiladwaith
Llai na 20	Angen dymchwel neu ailadeiladu



Ffigur 4 *Diagram deiliadaeth, yn dangos deiliadaeth tua 750 o dai ar wyth stad*

Ffigur 5 *Map isopleth yn dangos dwysedd poblogaeth. Dylid defnyddio lliw tywyllach er mwyn nodi crynodiad uwch.*

■ Mae gwefan yr ystadegau cenedlaethol (**www.statistics.gov.uk**) yn ffynhonnell gyfoethog o **ddata tai a demograffeg**. Chwiliwch fesul ardal, e.e. 'ardal allbwn', neu fesul cod post. Archwiliwch y crynodiadau o bobl fesul oed ac ethnigrwydd. Edrychwch am glystyrau.

■ Gall y **swyddog heddlu cymunedol** lleol fod â gwybodaeth berthnasol, felly hefyd **cymdeithasau preswylwyr** lleol (edrychwch am gofnodion a gyhoeddwyd a chylchlythyrau).

■ Gall **prifysgolion / sefydliadau addysg uwch** lleol fod â gwybodaeth a dogfennau polisi perthnasol i fyfyrwyreiddio. Cysylltwch â chynrychiolwyr Undebau Myfyrwyr a swyddogion tai.

Casgliad

Mae llawer o'r ymchwil a gyhoeddwyd yn delio gydag effeithiau negyddol crynodiadau uchel o fyfyrwyr ac mae'n hawdd tynnu casgliadau am y 'problemau' sy'n gysylltiedig â myfyrwyreiddio. Serch hynny, mae trefi a dinasoedd prifysgol **yn** elwa o'u poblogaeth myfyrwyr, ac mae rhai cymunedau lle nad oes sefydliadau Addysg Uwch ar hyn o bryd yn cefnogi eu creu. Mewn rhai dinasoedd, mae llety myfyrwyr wedi cynorthwyo i adfywio ardaloedd a fyddai fel arall wedi dirywio. Mae awdurdodau a chymunedau lleol mewn rhai dinasoedd wedi cofnodi effeithiau negyddol o ganlyniad i fyfyrwyr a landlordiaid yn symud ymaith o ardaloedd penodol.

© Prifysgol Aberystwyth

Gall arolwg Uwch Gyfrannol/Safon Uwch wneud dim mwy na chrafu wyneb y testun diddorol a chyfoes hwn. Sicrhewch bod eich casgliadau ar ddiwedd yr astudiaeth yn gytbwys a theg; dylent hefyd gydnabod cyfyngiadau yn ehangder a dyfnder yr astudiaeth.

Cyfeiriadau a darllen pellach

www.collegetownlife.com/college/CT_Studentification.htm ar gyfer cefndir i'r testun a rhai cysylltiadau defnyddiol

www.studentification.org – gwefan benodol am fyfyrwyreiddio a lle da i ddod o hyd i eitemau newyddion lleol.

http://bookshop.universitiesuk.ac.uk – adroddiad manwl am fyfyrwyreiddio y gellwch ei lawrlwytho am ddim o'r adran cyhoeddiadau. Defnyddiwch y teclyn chwilio a theipiwch 'studentification'.

'Student takeover alarms cities', *The Observer* 21 Gorffennaf 2002

'Donner your way' *The Guardian* 24 Ionawr 2006

Holmes, D. (2004) 'Practical Geography: Investigating the geography of crime', *Geography Review,* Cyfrol 17, rhif 5, tudalennau 14-17. Gwybodaeth am gwblhau arolygon trosedd.

*Mae **David Holmes** yn gweithio rhan amser fel Ymgynghorydd Daearyddiaeth i'r Cyngor Astudiaethau Maes. Mae hefyd yn cydlynu'r rhaglen Gifted and Talented yn Kilve Court, Gwlad yr Haf, ac mae'n Uwch-Arholwr gydag Edexcel.*
Gellir cysylltu gyda David ar **dave.holmes@telinco.co.uk**
Hoffai ddiolch i Laura West (Peter Symonds College) a ddarparodd yr ysbrydoliaeth ar gyfer yr erthygl hon, ac a roddodd ganiatâd i ddefnyddio gwaith gwreiddiol.

Cydnabyddiaethau

© 2007 New Scientist Magazine, Reed Business Information Ltd. Cedwir pob hawl. Dosbarthwyd gan Tribune Media Services. Addasiad o *Hope I get rich before I get old*, *New Scientist*, 10 Tachwedd 2007.